# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 4

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

*Adnewyddu cofrestriad yn y rhan gweithwyr cymdeithasol neu mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr*

### 87 Darfodiad cofrestriad

(1) Mae cofrestriad person yn y rhan gweithwyr cymdeithasol neu mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr yn darfod ar ddiwedd y cyfnod a bennir gan GCC mewn rheolau o dan adran 86(1)(a) os nad yw'r person wedi adnewyddu ei gofrestriad yn unol â rheolau a wneir gan GCC o dan adran 86(1)(b).

(2) Ond nid yw cofrestriad person yn darfod o dan is-adran (1) os yw is-adran (3) yn gymwys i'r person.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson—

(a) sy'n ddarostyngedig i unrhyw achosion o dan Ran 6, gan gynnwys ystyriaeth ragarweiniol neu ymchwiliad o dan Bennod 2 o'r Rhan honno, sy'n ymwneud ag addasrwydd y person i ymarfer y gwaith y mae ei gofrestriad yn ymwneud ag ef ("y gwaith perthnasol");

(b) y gwneir penderfyniad mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â'r gwaith perthnasol y caniateir i apêl gael ei gwneud yn ei erbyn o dan adran 158 (apelau yn erbyn penderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer);

(c) y mae gorchymyn cofrestru amodol mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â'r gwaith perthnasol yn cael effaith o dan adran 138(7), 152(8)(c), 153(6) neu (7), 154(8)(c) neu 155(10)(c);

(d) y mae gorchymyn atal dros dro mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â'r gwaith perthnasol yn cael effaith o dan adran 138(8), 152(8)(d), 153(9)(c), 154(6), (7) neu (10) neu 155(9);

(e) y mae gorchymyn interim mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â'r gwaith perthnasol yn cael effaith o dan adran 144 neu 147.

(4) Mae is-adran (2) yn peidio â bod yn gymwys i berson a ddisgrifir yn is-adran (3)(b)—

(a) ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn adran 158(3) ar gyfer gwneud apêl, neu

(b) pan fo apêl wedi ei gwneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw, pan ddyfernir ar yr apêl.

(5) Mae person y byddai ei gofrestriad yn y rhan gweithwyr cymdeithasol neu mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr wedi darfod o dan is-adran (1) oni bai am is-adran (2) i'w drin fel pe na bai wedi ei gofrestru yn y rhan berthnasol o'r gofrestr at bob diben ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn is-adran (6), er gwaethaf bod enw'r person yn parhau i ymddangos ynddi.

(6) Mae'r person i'w drin fel pe bai wedi ei gofrestru at ddibenion unrhyw achosion o dan Ran 6 (gan gynnwys ystyriaeth ragarweiniol neu ymchwiliad o dan Bennod 2) sy'n ymwneud ag addasrwydd y person i ymarfer y gwaith perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 87 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 87 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(c)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 87.